Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Social Farms & Gardens
Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol

# TYFU FYNY

# Adroddiad Gwerthuso Terfynol

# Cynnwys


Crynodeb Gweithredol ........................................................................................................ 3
Rhagarweiniad a Throsolwg ........................................................................................................ 5
Gweithgareddau ac Allbynnau ........................................................................................................ 7
Methodoleg y Gwerthusiad Terfynol ........................................................................................................ 8
Cysoni â Pholisi ........................................................................................................ 9
Cysylltiadau ac Effaith ........................................................................................................ 10
Ymgysylltu â Buddiolwyr........................................................................................................ 11
Beth pe bai Tyfu Fyny heb fodoli?........................................................................................................ 16
Llwyddiannau a Rhwystrau........................................................................................................ 23
Sut gellir gwneud pethau'n wahanol yn y dyfodol? ........................................................................................................ 28
Anghenion Cymorth sector Tyfu Cymunedol Cymru yn y dyfodol ........................................................................................................ 29
Casgliad ........................................................................................................ 31
Argymhellion ........................................................................................................ 32




Social Farms & Gardens
Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol

# Crynodeb Gweithredol
## Tyfu Fyny Mawrth 2017 – Mawrth 2020

CEFNOGWYD
**369**
PROSIECT.

**1,263**
UNIGOLYN WEDI CYMRYD RHAN MEWN HYFFORDDIANT.

WEDI YMGYSYLLTU Â
**9,527**
RHANDDEILIAD.

CWBLHAWYD
**199**
DIWRNOD O HYFFORDDIANT.

DYWEDODD
**91%**
O YMATEBWYR I AROLYGON FOD EU GWYBODAETH A'U SGILIAU WEDI CYNYDDU.

CWBLHAWYD
**6**
ASTUDIAETH DICHONOLDEB.

DYWEDODD
**88%**
O YMATEBWYR I AROLYGON FOD Y PROSIECT WEDI HELPU EU GRŴP I WIREDDU EI NODAU.

# Prif Agweddau Dysgu

- Mae'r sector tyfu cymunedol yng Nghymru'n ffynnu, gyda photensial enfawr i gyfrannu at bolisi Llywodraeth Cymru o safbwynt yr economi, treftadaeth ddiwylliannol, yr amgylchedd ac iechyd a llesiant cymunedau.
- Mae pandemig Covid-19 wedi arwain at gyfleoedd sylweddol i'r sector o ran ategu gwerth bwyd lleol ac o safbwynt cyfrannu at ddiogelwch bwyd yn y dyfodol.
- Er gwaethaf bodolaeth strategaeth tyfu gymunedol cenedlaethol, mae 'na amrywiaethau arwyddocaol o ran sut mae hyn yn troi'n gefnogaeth a gweithredu ar draws ardaloedd Awdurdodau Lleol gwahanol.
- Mae model cyflenwi Tyfu Fyny o ddefnyddio Gweithwyr Datblygu profiadol o'r sector sy'n gyfrwng i gyngor a chefnogaeth arbenigol ochr yn ochr ag ymgynghorwyr arbenigol, yn effeithiol.
- Cymorth neilltuol sy'n bodloni anghenion grŵp mewn ffordd uniongyrchol yw'r cymorth mwyaf effeithiol ac effeithlon.
- O safbwynt grwpiau mae rhwydweithio a dysgu gan gydweithwyr yn hynod werthfawr, ac yn fwy tebygol o arwain at newid parhaol o fewn y sector.
- Mae gwerth ychwanegol sylweddol mewn perthynas â chyfuno elfennau gwahanol y sector tyfu o dan un prosiect, ac mae ganddo'r potensial i symud tu hwnt i gynnyrch bwytadwy yn y dyfodol.
- Roedd Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yn gallu defnyddio eu profiad a hanes o waith ymgysylltu yn y gymuned i gynnig cymorth amlweddog i fentrau Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned [AGG] a Ffermydd Gofal oedd yn ymestyn ymhell tu hwnt i gyngor oedd yn benodol i'r diwydiant.
- Mae bywiogrwydd y sector yn amrywio ar lefel ddaearyddol, a hwyrach y bydd angen datblygu'r farchnad mewn rhai ardaloedd.
- Dylai unrhyw brosiect yn y dyfodol adeiladu ar y cyfoeth o wybodaeth a phrofiad a rhwydweithiau a ddatblygwyd trwy gynllun Tyfu Fyny.
- Dylid dyrannu digon o gapasiti ac adnoddau i unrhyw brosiect yn y dyfodol i sicrhau ei fod yn cyrraedd pob rhan o'r sector a phob rhan o Gymru, ond hefyd er mwyn i ddulliau gwaith cyffredinol gweddu i'r dylanwad ar bolisi strategol.
- Rhai o'r prif heriau sy'n parhau i wynebu'r sector yw cael hyd i dir priodol a goresgyn rhwystrau mewn perthynas â chynllunio.
- Mae angen cefnogaeth neilltuol a/neu hyfforddiant ar gyfer grwpiau i'w galluogi i ddangos eu Gwerth Cymdeithasol.

# Rhagarweiniad a Throsolwg

Mae gweithgareddau tyfu cymunedol yn dod â chymunedau at ei gilydd er mwyn cynhyrchu bwyd, rheoli ecosystemau ac arfer cydlyniant cymdeithasol. Fel arfer, mae sefydliadau tyfu cymunedol yn digwydd ar ffurf gerddi cymunedol, ffermydd dinesig, perllannau cymunedol a phrosiectau Bwyd Bendigedig a rhandiroedd. Mae'r sector hefyd yn cynnwys Ffermydd Gofal a nifer weddol fach ond cynyddol o gynlluniau Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned. I nifer o brosiectau tyfu cymunedol, mae mentro a chreu swyddi, ochr yn ochr â gofal cymdeithasol a chyfrannu at well deimlad o lesiant, naill ai wrth galon eu nod, neu'n dod yn rhan fwyfwy pwysig o'r hyn maent yn ei wneud.

Ar hyn o bryd, Cymru yw'r unig wlad yn y DU sydd â strategaeth tyfu gymunedol penodol, gyda rhyw 326 gardd gymunedol a 114 o safleoedd rhandiroedd a reolir gan y gymuned. Yn ogystal, mae 24 perllan gymunedol, 47 o brosiectau AGG a 31 o brosiectau ar thema Bwyd Bendigedig yn bodoli yng Nghymru.

**326** Gerddi Cymunedol

**114** Safleoedd rhandiroedd a reolir gan y Gymuned

**47** Prosiectau Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned

**31** Prosiectau ar thema Bwyd Bendigedig

**24** Perllannau Cymunedol

Prosiect ar draws Cymru gyfan oedd Tyfu Fyny, a gyllidwyd trwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru, dan reolaeth Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol. Nod prosiect Tyfu Fyny oedd cefnogi a chynyddu nifer a hyfywedd prosiectau tyfu cymunedol yng Nghymru. Ffocws Tyfu Fyny oedd gweithio gyda'r sector i gynyddu capasiti er mwyn creu prosiectau cynaliadwy o safbwynt ariannol ac amgylcheddol.

Ochr yn ochr â phrosiect Tyfu Fyny, mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol hefyd yn rheoli'r Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedol (CLAS) yng Nghymru, sy'n helpu prosiectau tyfu cymunedol i adnabod a chael hyd i dir er mwyn tyfu arno. Mae llawer o'r grwpiau a gefnogir trwy brosiect Tyfu Fyny hefyd wedi derbyn cefnogaeth CLAS.

Hwn yw'r adroddiad gwerthuso terfynol ar gyfer Tyfu Fyny. Mae'r adroddiad yn defnyddio'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan gyfranogwyr y rhaglen, prif bartneriaid a staff y prosiect, ac mae'n olrhain prif ganlyniadau'r gwerthusiad, ynghyd ag argymhellion er mwyn helpu siapio unrhyw raglen yn y dyfodol, fydd yn cael ei datblygu yn ei le.

## Trosolwg

Rhaglen a gafodd ei rhedeg a'i rheoli gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol oedd Tyfu Fyny. Cyllidwyd y rhaglen dysgu a'r cymorth gan Lywodraeth Cymru, a ddyfarnodd cyllid gwerth £629,000 i Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol dros dair blynedd i gefnogi cyflwyno'r prosiect. Cychwynnodd y rhaglen ym mis Mawrth 2017 a daeth i ben ym mis Mawrth 2020.

Prif nod prosiect Tyfu Fyny oedd cefnogi a chynyddu nifer a hyfywedd prosiectau tyfu cymunedol yng Nghymru. Trwy ei waith o gefnogi mentrau bwyd cymunedol, nod Tyfu Fyny oedd datblygu sector bwyd cymunedol llewyrchus, ac annog mwy o bobl yn y sector i ymgysylltu â'r gwaith, gan arwain at gymunedau cryfach, iachach a mwy cadarn ar draws Cymru.

**Roedd y prosiect yn canolbwyntio ar 5 prif thema, ac roedd y ffrydiau gwaith yn deillio o'r rhain:**

- Cefnogi Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned (AGG)
- Cefnogi ffermydd gofal
- Cefnogi a datblygu gweithgareddau mentrus
- Cydlyniant cymunedol
- Addysg ym maes newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd.

Roedd y prosiect yn cynnig cefnogaeth i'r sector mewn ffyrdd amrywiol, megis cyngor ac arweiniad gan staff ymroddedig y prosiect; cymorth mentora gan ymgynghorwyr arbenigol; digwyddiadau hyfforddiant a rhwydweithio; dysgu gan gydweithwyr trwy ymweliadau safle a chynhyrchu adnoddau ar-lein.
Yn ogystal, roedd y prosiect yn defnyddio gwybodaeth am y sector i gyfrannu at ymgynghoriadau ar bolisïau'r llywodraeth ac i gynrychioli buddiannau'r sector tyfu cymunedol ar nifer o grwpiau partneriaeth strategol.





# Prif weithgareddau ac allbynnau

## Targedau'r Rhaglen

Er na osodwyd unrhyw allbynnau penodol ar gyfer y prosiect, cafodd llwyddiant y rhaglen ei fesur yn erbyn nifer o dargedau allweddol a dangosyddion prosiect:

- Nifer y cyfranogwyr a hyfforddwyd
- Nifer y rhanddeiliaid a ymgysylltwyd â nhw
- Nifer yr astudiaethau dichonolrwydd
- Nifer y dyddiau hyfforddi a gynhaliwyd

**Yn ogystal, cafodd nifer y prosiectau a gefnogwyd ei monitro. Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad y prosiect yn erbyn y targedau a osodwyd.**

| | | |
|---|---|---|
| **369**<br>Nifer y prosiectau a gefnogwyd<br>Ni osodwyd targed | **9,527**<br>Nifer y rhanddeiliaid a ymgysylltwyd â nhw<br>Targed: 6,000 | **6**<br>Nifer yr astudiaethau dichonoldeb a gynhaliwyd<br>Targed: 5 |
| **199**<br>Nifer y dyddiau hyfforddi a gynhaliwyd<br>Targed: 184 | **1,263**<br>Nifer y cyfranogwyr a hyfforddwyd<br>Targed: 322 | |

Fel y gwelir yn y tabl uchod, mae Tyfu Fyny wedi rhagori ar fwyafrif y targedau a osodwyd ar gyfer y prosiect. **Mae hyn yn dystiolaeth gadarn o ddulliau rheoli a chyflenwi llwyddiannus y prosiect gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol.**

# Methodoleg y Gwerthusiad Terfynol

Er mwyn asesu sut perfformiodd y rhaglen yn erbyn ei thargedau, a pha wahaniaeth a wnaethpwyd i'r sefydliadau a gefnogwyd, comisiynwyd gwerthusiad dros dro a gwerthusiad terfynol allanol o'r prosiect. Roedd y gwerthusiad dros dro'n cynrychioli cyfle i asesu cynnydd y prosiect, ond roedd hefyd yn ystyried cyflenwi cefnogaeth i'r sector yn y dyfodol. Cynhaliwyd arfarniad 'Opsiynau'r Dyfodol' ochr yn ochr â'r gwerthusiad dros dro, i olrhain y prif elfennau i'w hystyried ar gyfer unrhyw brosiect yn y dyfodol gyda'r nod o gefnogi'r sector tyfu cymunedol.

Diben y gwerthusiad terfynol yw asesu i ba raddau y gwireddwyd y prosiect, i gasglu barn buddiolwyr a rhanddeiliaid y prosiect, a hefyd i ystyried yr effaith ar y sector pe na fyddai Tyfu Fyny wedi bodoli. Mae'r gwerthusiad terfynol hefyd yn adnabod y prif wersi a ddysgwyd o'r prosiect. Cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol fel rhan o'r gwerthusiad terfynol:

- Cyfweliadau wyneb yn wyneb gyda Chydlynydd y Rhaglen a staff y prosiect.
- Cyfweliadau dros y ffôn gyda detholiad o'r mentoriaid fu'n cynnig cyngor arbenigol unigol i grwpiau.
- Cyfweliadau dros y ffôn gyda phrif bartneriaid y prosiect.
- Trafodaeth ar-lein gyda phartneriaid a rhanddeiliaid y prosiect.
- Arolwg ar-lein a rannwyd gyda phob sefydliad oedd wedi derbyn cefnogaeth trwy'r rhaglen.

Roedd cyfnod terfynol y gwerthusiad wedi digwydd yr un pryd â dechrau pandemig Covid-19 ac fel y cyfryw, nid oedd yn bosib cynnal rhai agweddau ar y fethodoleg gwerthuso arfaethedig. Er taw isel iawn yw effaith hyn, o ran yr adborth a dderbyniwyd, mae'n golygu nad oes cymaint o gynrychiolaeth o ran barn rhai grwpiau e.e. Ffermydd Dinesig a Ffermydd Gofal, o'i chymharu â mathau grwpiau eraill.[1]

---

[1] *Ni dderbyniwyd ymatebion i'r arolwg gan Ffermydd Gofal, ac roedd nifer yr ymatebion gan AGG yn isel. Derbyniwyd barn y sefydliadau hyn yn bennaf trwy drafodaethau gyda rhanddeiliaid allanol ac ymgynghorwyr arbenigol.*

# Cysoni â Pholisi

Mae'r awyrgylch polisi cyfredol yn cynnig nifer o gyfleoedd i'r sector tyfu cymunedol a ffermydd gofal yng Nghymru. Mae'r sector yn gallu dangos fod ei bolisïau'n gyson â nodau nifer o weithredoedd allweddol sy'n olrhain cyfeiriad polisi cyffredinol Llywodraeth Cymru. Er enghraifft **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** - nod y ddeddf hon yw sicrhau fod Cymru'n economi gwyrdd, carbon isel sy'n barod i addasu i effaith newid yn yr hinsawdd. Mae'r ddeddf wedi arwain at bolisi Adnoddau Naturiol - a nod y ddeddf honno yw fod yn sylfaen **Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (2015**). Nod **Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (2015)** yw creu Cymru gynaliadwy trwy wella'r pedair agwedd ar lesiant: cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd. Mae'n gyson â mentrau tyfu cymunedol ac mae gan themâu'r ddeddf hon, ac fel y cyfryw brosiectau tyfu cymunedol, botensial i gyfrannu at yr agenda hwn ar lefel leol.

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru (2014)** hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd llesiant yr unigolyn. Mae'r Ddeddf, sy'n sôn yn benodol am yr angen i hyrwyddo mentrau cymdeithasol a chydweithfeydd, sy'n cynnwys pobl gydag anghenion gofal a chefnogaeth, oherwydd mae cyfrannu at y pethau hyn yn debygol o wella llesiant, ac atal iechyd rhag gwaethygu ymhellach. Yn ogystal, mae'r pwyslais cynyddol ar **bresgripsiynau cymdeithasol** fel ffordd o wella iechyd a llesiant, ac ategu Cynllun Gofal Sylfaenol Llywodraeth Cymru (2016), yn cynnig cyfleoedd sylweddol i'r sector tyfu cymunedol a ffermydd gofal. **Mae Symud Cymru Ymlaen 2016-2021** yn cyfoethogi ymhellach perthnasedd presgripsiynau cymdeithasol trwy gysoni â'r maes blaenoriaeth 'Byw'n Iach ac Egnïol' o safbwynt gweithredu.

Hefyd, gall goblygiadau Brexit a'i effaith ar bolisi amaethyddol y dyfodol olygu cyfleoedd sylweddol i'r sector tyfu cymunedol, ac annog mwy o ffermwyr i gynnig tir i gymunedau er mwyn tyfu cynnyrch bwytadwy. Er bod gweithredu Brexit tu allan i gwmpas ac amserlenni Tyfu Fyny, mae wedi bod yn sbardun o ran codi proffil a photensial y sector tyfu cymunedol.

Ar y cyfan, mae gan y sector tyfu cymunedol a ffermydd gofal botensial i wneud cyfraniad arwyddocaol i agenda 'iechyd gwyrdd' sy'n sylfaen strategaethau gyda'r nod o hyrwyddo a chefnogi gwella iechyd a llesiant. Hefyd mae gan y sector botensial i ymateb mewn ffordd gadarnhaol i heriau Brexit trwy ddangos potensial cynhyrchu bwyd yn lleol a sut y gall rhannau'r sector er enghraifft, AGG, gyfrannu at y diwydiant amaeth.

Fel y nodwyd yn barod, mae'r gwerthusiad hwn wedi digwydd yr un pryd â phandemig Covid-19. Er bod effaith hyn ar y sector tyfu cymunedol yng Nghymru tu allan i gwmpas y gwerthusiad, gwyddom fod y pandemig wedi gorfodi pobl i newid eu ffordd o ymddwyn o ran cael hyd i fwyd, ac mae wedi codi mwy o ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bwydydd lleol. O ganlyniad, mae llawer o erddi cymunedol ac AGG wedi bod yn fwy prysur nag erioed o'r blaen. Dylid ystyried yn ofalus cyfraniad y sector trwy gydol yr argyfwng, a'r cyfraniad potensial y gall ei wneud yn barhaus, i gadwyni cyflenwi mewn perthynas â pholisïau'r dyfodol - nod y rhain fyddai gwneud Cymru'n fwy cydnerth a chynaliadwy.

# Cysylltiadau ac Effaith

**Mae Tyfu Fyny wedi llwyddo i gefnogi 369 prosiect. Mae buddiolwyr, partneriaid a rhanddeiliaid yn cytuno fod y prosiect wedi cael effaith sylweddol ar sefydliadau unigol a'r sector yn gyffredinol. Pe na fyddai Tyfu Fyny wedi bodoli, mae'n debyg na fyddai'r sector wedi datblygu i'r un graddau, ac na fyddai'r cysylltiadau mor effeithiol.**

Mae adborth gan yr holl randdeiliaid sy'n gysylltiedig â chynllun Tyfu Fyny yn dangos yn glir fod y prosiect wedi bod yn hynod lwyddiannus o ran cynnig cysylltiadau a chael effaith effeithiol. Mae'r prosiect wedi cefnogi dros 369 o brosiectau gwahanol dros gyfnod y cynllun, ac mae pob un o'r rhain wedi derbyn cefnogaeth neilltuol oedd yn berthnasol i'w anghenion. Gan ystyried nifer y prosiectau tyfu cymunedol a gynrychiolir gan hyn, mae'n cyfateb i gyfran helaeth o'r sector ac yn tynnu sylw at lwyddiant y prosiect o safbwynt ymgysylltu â grwpiau. Mae tystiolaeth bellach o gysylltiadau'r prosiect gan fod nifer y rhanddeiliaid y llwyddwyd i ymgysylltu â nhw yn llawer uwch na'r targed gwreiddiol - cynnydd o ryw 4,000 unigolyn.

**369** — **Cefnogwyd 369 prosiect gwahanol yn ystod oes y prosiect, gyda phob un ohonynt yn derbyn cefnogaeth oedd yn berthnasol i'w hanghenion.**

## Ymatebion i'r arolwg ar-lein

Roedd cyfanswm o 35 sefydliad wedi cwblhau'r arolwg ar-lein. Roedd yr arolwg wedi denu mwy o ymatebion gan erddi cymunedol (49%) gyda gweddill yr ymatebion yn dod gan gymysgedd o berllannau cymunedol, AGG, gerddi marchnad a sefydliadau eraill oedd yn cynnal cynllun tyfu cymunedol fel agwedd ar eu gweithgareddau, yn hytrach nag fel unig ffocws. Ni dderbyniwyd ymatebion gan Ffermydd Gofal na Ffermydd Dinesig.



## Ymgysylltu â Buddiolwyr

Dengys canlyniadau'r arolwg fod mwyafrif y sefydliadau sydd wedi ymgysylltu â'r prosiect wedi gwneud hynny ar nifer o lefelau gwahanol, gyda llawer ohonynt yn defnyddio nifer amrywiol o agweddau cymorth.  Y dulliau ymgysylltu mwyaf cyffredin oedd cymorth wyneb yn wyneb (77%) neu gymorth o bell dros y ffôn neu drwy ebost (69%).  Roedd ychydig dan hanner yr ymatebwyr i'r arolwg wedi mynychu digwyddiadau hyfforddi (49%).  Roedd dysgu gan sefydliadau eraill yn rhan allweddol o'r prosiect, ac roedd 40% o sefydliadau wedi ymweld â phrosiect arall, tra bo canran is (17%) wedi cynnal ymweliad, neu wedi derbyn cefnogaeth mentor dynodedig.

Gofynnwyd i'r sefydliadau oedd wedi derbyn mwy nag un math o gymorth, nodi agwedd fwyaf buddiol y gefnogaeth a dderbyniwyd. Barn nifer o ymatebwyr oedd bod yr holl agweddau ar y gefnogaeth a dderbyniwyd wedi bod yn werthfawr, ond y ffynhonnell cymorth fwyaf buddiol oedd y gefnogaeth wyneb yn wyneb a dderbyniwyd gan y gweithiwr prosiect. Roedd arbenigedd y gweithiwr, natur bersonol y gefnogaeth a dderbyniwyd a'r ffaith fod y cyngor a roddwyd yn benodol a phwrpasol o'r gwerth mwyaf.

> **"wyneb yn wyneb ar y prosiect - oedd yn caniatáu trafodaeth amser real a gwybod fod y staff yn gwybod beth oeddem yn ei drafod."**
>
> Ymatebwr i'r Arolwg

Y ddau ymateb mwyaf cyffredin nesaf oedd yr un mor werthfawr â'i gilydd oedd ymweliadau safle â phrosiectau eraill a chefnogaeth o bell. Yn benodol, roedd pobl wedi croesawu'r cyfle i siarad gyda sefydliadau oedd wedi'u sefydlu eisoes, ac wedi cael profiad uniongyrchol o gyflawni prosiectau tebyg, a chael mynediad at gefnogaeth uniongyrchol ac amserol pan roedd ei angen.

> **"Roedd y gefnogaeth i'n grŵp ymweld â safle arall wedi rhoi ysbrydoliaeth a syniadau i'r gwirfoddolwyr oedd yn gysylltiedig â'n prosiect ni."**
>
> Ymatebwr i'r Arolwg





**"Inni, yr agweddau mwyaf defnyddiol oedd mynd i weld sefydliad arall a dysgu sut maen nhw'n gwneud pethau a chael help gyda chyllid ar gyfer astudiaeth dichonoldeb ar gyfer caffi cymdeithasol."**

Ymatebwr i'r Arolwg

Roedd llai o ymatebwyr wedi cyfeirio at weithdai / hyfforddiant a chymorth mentora, ond roedd y sawl oedd wedi cyfeirio at yr agweddau hyn o'r farn eu bod yn hynod werthfawr.

O'r sefydliadau sydd wedi ymateb i'r arolwg, roedd 74% wedi defnyddio'r gefnogaeth trwy ffrwd gwaith Tyfu Cymunedol. O'r gweddill, 26% o ymatebwyr: nid oedd 3 sefydliad yn gwybod o ba ffrwd gwaith roedd y gefnogaeth wedi dod; roedd 3 arall wedi derbyn cefnogaeth trwy ffrwd gwaith Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned; gyda 2 yn derbyn cefnogaeth trwy weithgareddau ffermydd Gofal ac 1 yn derbyn cefnogaeth ym maes Mentro/incwm. Mae'r diffyg cydbwysedd o safbwynt data tuag at ffrwd gwaith Gerddi Cymunedol yn adlewyrchu'r lefelau ymgysylltiad a galw uwch gan Erddi Cymunedol ar draws y prosiect. Er hynny, mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r nifer uwch o brosiectau gerddi cymunedol o'i gymharu â Ffermydd Gofal, prosiectau AGG a Ffermydd Dinesig yng Nghymru.[2]

Nododd nifer sylweddol o ymatebwyr iddyn nhw dderbyn yr holl gefnogaeth oedd ei hangen arnynt trwy gydol y prosiect; fodd bynnag lle nodwyd anghenion cymorth oedd heb eu diwallu, ymhlith y rhai mwyaf cyffredin roedd:-

- Cyngor cyfreithiol mewn perthynas â pherchnogaeth tir a chynllunio
- Cyngor ar gael mynediad at gyllid neu adnoddau
- Cymorth ymarferol penodol ar draws amrediad o bynciau penodol megis: gosod concrit, permaddiwylliant, arferion dyfrhau a chwistrellu glyffosad.

Roedd mwyafrif y sefydliadau o'r farn nad oedd angen gwella'r gwasanaeth, ac roeddynt yn fodlon iawn gyda'r gefnogaeth a dderbyniwyd.

**"Roedd y cyngor a'r gefnogaeth yn dda iawn. Roedd tîm y ffermydd cymdeithasol yn gyfeillgar ac yn wybodus iawn. Arbenigwyr yn y maes hwn."**

Ymatebwr i'r Arolwg

---

[2] *Ym mis chwefror 2020, cyhoeddodd Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol ganlyniadau'r ymchwil ar Safleoedd Bwyd a Dyfir yn y Gymuned ar draws Cymru. Dengys y canlyniadau bod niferoedd llawer uwch o Erddi Cymunedol na chynlluniau AGG a Ffermydd Gofal. Comisiynwyd yr ymchwil gan Adran Hamdden Awyr Agored Llywodraeth Cymru.*

> **"Rydym yn ddiolchgar i dîm Tyfu Fyny am eu mewnbwn i'n cynllun amrywiol a deinamig ac am agor drysau inni. Ein gobaith yw y bydd eu cyllidwyr yn parhau i'w cefnogi yn y dyfodol. Adnodd gwych i unrhyw brosiect tyfu cymunedol."**
>
> Ymatebwr i'r Arolwg

Lle derbyniwyd awgrymiadau ar gyfer gwelliannau, fe'u rhannwyd yn ddau brif adran:

- Mwy o gyfleoedd i rwydweithio ymhlith grwpiau (corfforol a rhithwir)
- Mwy o gapasiti ar gyfer gweithwyr cymorth.

Nododd 91% o ymatebwyr i'r arolwg - sy'n nifer sylweddol - y cyfoethogwyd eu gwybodaeth a'u sgiliau o ganlyniad i'r ymgysylltiad â'r prosiect. O'r rhain: roedd 57% o'r farn taw cynnydd amlwg neu sylweddol oedd hwn. Yn ogystal, nododd 88% fod y gefnogaeth a dderbyniwyd gan Tyfu Fyny wedi helpu'r grŵp i adnabod cyfleoedd i'r dyfodol a gwireddu ei nodau, a nododd 51% o'r rhain taw 'amlwg' neu 'sylweddol' oedd hyn hefyd.

**91%** **o ymatebwyr i'r arolwg - sy'n nifer sylweddol - y cyfoethogwyd eu gwybodaeth a'u sgiliau o ganlyniad i'r ymgysylltiad â'r prosiect.**

Mae'r adborth yma'n dangos gwerth y gefnogaeth a ddarparwyd yn ystod y prosiect, a sut mae wedi rhoi'r arfau priodol ac arweiniad i'r sefydliadau er mwyn datblygu. Roedd mwyafrif helaeth o'r sefydliadau (86%) o'r farn fod y gefnogaeth a dderbyniwyd yn uchel ei hansawdd, gyda 63% yn rhoi sgôr 'da iawn' neu 'ragorol' i'r gefnogaeth.

Mewn perthynas â barn pobl am y problemau mwyaf sy'n effeithio ar y sector, y meysydd pwysicaf, neu'r rhai arwyddocaol neu arwyddocaol iawn oedd y canlynol:-

- Mynediad at gyllid a grantiau
- Rhwydweithio a dysgu gan ein gilydd
- Lobïo llywodraeth leol a chenedlaethol er mwyn codi proffil y sector
- Mynediad at dir

Y meysydd gyda llai o bwyslais na'r lleill oedd:-

- Mynediad at hyfforddiant mewn sgiliau garddwriaethol
- Cymorth i greu busnes / incwm
- Cymorth i recriwtio gwirfoddolwyr a
- Chyngor ar faterion cynllunio

Mae'r ymatebion hyn yn amlygu pwysigrwydd gwaith dylanwadu ar lefel strategol ac ar lawr gwlad, cymorth ymarferol ar gyfer grwpiau.  Mae'r dull hwn o weithio yn sicrhau y caiff proffil a gwerth y sector ei hyrwyddo o ran unigolion sy'n gwneud penderfyniadau, a bod tir ar gael er mwyn tyfu, ochr yn ochr â'r gefnogaeth ymarferol ar lawr gwlad sy'n darparu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar grwpiau er mwyn rhedeg sefydliadau cynaliadwy.

Roedd yr ymatebion i ddarparu anghenion grwpiau yn y dyfodol yn amrywiol ac yn benodol i bob grŵp unigol, yn dibynnu ar natur y grŵp; fodd bynnag, ymhlith themâu cyffredin roedd:

- Angen parhaus ar gyfer hyfforddiant a rhwydweithio
- Mynediad at gyngor arbenigol.

**"Yn gyntaf oll, parhau fel aelod o'r Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol. Parhau i ddatblygu, tyfu a newid er mwyn sicrhau fod gerddi'n bodloni eu diben; magu hunanhyder, hunan-barch a chynhwysiant cymdeithasol ar gyfer mwyafrif ein gwirfoddolwyr ac rydym yn llwyddo i wireddu hyn trwy gefnogaeth Tyfu Fyny a thyfu gyda natur."**

Ymatebwr i'r Arolwg





**"Datblygu strwythurau mentrau cymdeithasol i gefnogi pobl ifanc i gael gwaith. Ein gobaith yw cynnig sgiliau garddwriaethol a sgiliau arlwyo, ond nid oes gennym unrhyw brofiad ym maes mentrau cymdeithasol."**

Ymatebwr i'r Arolwg

Nid oedd mwyafrif y grwpiau'n gallu asesu budd economaidd y gefnogaeth a dderbyniwyd trwy'r prosiect, oherwydd nid oedd wedi arwain yn uniongyrchol at incwm ychwanegol neu arbedion ar gostau. Lle'r oedd grwpiau'n gallu mesur hyn, roedd yn sgil y gefnogaeth a dderbyniwyd yn lle talu ffioedd proffesiynol fyddai wedi gorfod cael eu talu fel arall.

**"Wedi arbed rhyw £2000 ar gyfer cost cyngor ar gytundeb tir a £300 ar yr astudiaeth dichonoldeb."**

Ymatebwr i'r Arolwg



## Beth pe bai Tyfu Fyny heb fodoli?

Barn mwyafrif y sefydliadau oedd y byddai hyn wedi cael rhywfaint o effaith ar eu grwpiau pe nad oedd yn bosib derbyn cefnogaeth Tyfu Fyny. Yn bennaf, cefnogaeth oedd yn golygu gwell cysylltiadau a bod yn llai ynysig ar gyfer prosiectau ac roedd wedi rhoi hyder i'r grwpiau gychwyn neu arbrofi gyda dulliau gwaith gwahanol wrth gyflenwi gwasanaeth. Nododd rhai grwpiau i'r ymgysylltiad â'r prosiect arwain at newid arferion gweithio neu wedi eu galluogi i ddatblygu sgiliau newydd. Barn nifer lai o grwpiau oedd bod canfyddiad na fyddai eu prosiect yn bodoli heb gefnogaeth Tyfu Fyny ac y byddai'r cynnydd wrth ddatblygu eu prosiectau wedi bod yn sylweddol arafach, ac wedi wynebu mwy o rwystrau potensial.

**"Mae Tyfu Fyny yn chwarae rôl bwysig wrth gysylltu grwpiau ar draws Cymru a'r DU. Mae wedi arwain at lais cyffredin ar ran y sector tyfu bwyd cymunedol. Hebddo, byddai grwpiau wedi teimlo'n ynysig iawn a dioddef oherwydd diffyg cefnogaeth."** Ymatebwr i'r Arolwg

**"Mae'n debyg y byddem wedi parhau i wneud yr hyn oedd yn gyfarwydd ac yn gyfforddus inni yn hytrach na mentro, ymddiried a magu hyder i roi cynnig ar bethau newydd, bod yn uchelgeisiol a chreu cysylltiadau gyda phrosiectau eraill er mwyn ein hysbrydoli."** Ymatebwr i'r Arolwg

**"Hwyrach y byddai gennym gyfansoddiad a threfniadau cyfreithiol anaddas, wedi talu mwy am geisiadau cynllunio; byddai'r holl brosiect wedi cymryd mwy o amser ac wedi dioddef oherwydd anghydfodau."**

Ymatebwr i'r Arolwg

Mae'r ymatebion i'r cwestiwn hwn hefyd yn dangos fod y gefnogaeth a dderbyniwyd gan Tyfu Fyny wedi cael effaith sylweddol ar fuddiolwyr prosiect oedd wedi cyrraedd camau datblygu amrywiol e.e. cychwyn busnes a datblygu busnes. Mae hyn eto'n adlewyrchu gallu'r prosiect i ymateb i anghenion unigryw grwpiau unigol a chynnig cefnogaeth ac arbenigedd pwrpasol wedi'u teilwra beth bynnag fo sefyllfa'r grŵp o safbwynt eu sefyllfa ar y daith tyfu cymunedol.

Mae partneriaid a rhanddeiliaid wedi ategu sylwadau buddiolwyr y prosiect; roeddynt o'r farn fod Tyfu Fyny wedi bod yn gyfrwng i grwpiau ddysgu gan ei gilydd a rhannu adnoddau, a bod hyn wedi arwain at sector 'mwy cysylltiedig a chadarn'. Y teimlad oedd, heb y prosiect, y byddai hyn wedi digwydd mewn rhannau o'r wlad, ond bod y prosiect wedi cynnig momentwm ac adnoddau er mwyn cysylltu grwpiau ar draws Cymru gyfan.

**Mae'r pedwar astudiaeth achos isod yn dangos effaith gadarnhaol Tyfu Fyny ar sefydliadau a grwpiau..**

## ASTUDIAETH ACHOS - Learn & Grow Community Project

Rhaglen hyfforddi â chymorth yw'r Prosiect Dysgu a Thyfu Cymunedol, sy'n defnyddio pleserau tyfu ffrwythau, llysiau, perlysiau a blodau i wella sgiliau cyfathrebu a datblygu sgiliau rhifedd a TGCh. Mae'r prosiect ar gyfer pobl ifanc 14-25 oed, ac yn cyfuno'r dysgu gyda phrofiad ymarferol o dyfu ffrwythau, llysiau, perlysiau a blodau ar ardd ysgol neu randir.

**Y nod yw tyfu amrediad eang o gynnyrch dros gyfnod o 12 wythnos er mwyn naill ai:**

- Ei werthu trwy gwmni Big Moose Coffee Co, gyda'r elw'n mynd i helpu pobl ddigartref, neu
- Ei roi i fanc bwyd lleol

Sefydlodd y Prosiect bartneriaeth gyda Choleg Caerdydd a'r Fro ym Medi 2018. Mae'r Coleg yn berchen ar ddau randir, un ar gampws y ddinas ar Heol Dumballs a'r llall ar Gampws y Barri. Hefyd mae gan Brosiect Dysgu a Thyfu Cymunedol randir sy'n eiddo i'r awdurdod lleol yn Llanrhymni.  Ers sefydlu'r bartneriaeth, mae'r prosiect wedi recriwtio grwpiau o fyfyrwyr o'r ddau gampws i weithio ar y rhandiroedd. Daeth yn glir, trwy'r broses hon, er bod diddordeb mewn garddwriaeth yn bodoli, roedd gan y myfyrwyr hefyd ddiddordeb mewn dysgu sgiliau ymarferol eraill ac yn benodol roedd ganddynt ddiddordeb mewn gwneud dodrefn i'r ardd.

Derbyniodd y Prosiect y gefnogaeth benodol ganlynol gan Tyfu Fyny:

- Ymweliad gan y Swyddog Datblygu fu'n cynnal asesiad diagnostig cychwynnol
- Cefnogaeth Gweithiwr Datblygu Busnes, ac fe'u cyfeiriwyd at UnLtd
- Cyfeiriadau at gyngor arbenigol arall e.e. rhywun oedd yn arbenigo mewn creu dodrefn i'r ardd o baledau pren wedi'u hadfer.





Mae'r prosiect hefyd wedi elwa o gael cefnogaeth a chysylltiad parhaol gyda Tyfu Fyny sydd wedi arwain at wybodaeth a chyfleoedd rhwydweithio hynod werthfawr.

Yn sgil derbyn cefnogaeth y Gweithiwr Datblygu Busnes, llwyddodd y prosiect i dderbyn cyllid gan UnLtd er mwyn cymryd rhan mewn hyfforddiant a rhwydweithio a datblygu'r prosiect ymhellach. Aeth y prosiect ati i ddatblygu cynnyrch a nwyddau a roddwyd i gwmni Big Moose Coffee Co.

Yn y dyfodol, yn ogystal â gwneud blychau plannu a silffoedd i'w gwerthu, gobaith y prosiect yw gweithio gyda Chyngor Sir Bro Morgannwg ar gynllun garddio er mwyn lleihau absenoldebau salwch aelodau staff sy'n dioddef o straen. Yn ogystal, bydd y prosiect yn parhau i weithio gyda sefydliadau addysg er mwyn rhoi cyfle i amrediad eang o fyfyrwyr brofi pleserau garddio, dylunio a gwerthu dodrefn i'r ardd.

> **"Heb gefnogaeth Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol ni fyddai'r Prosiect Dysgu a Thyfu Cymunedol wedi gallu datblygu mor gyflym nac mewn ffordd mor gadarnhaol."**
>
> Cydlynydd Prosiect 'Learn & Grow Community'



## ASTUDIAETH ACHOS - Banc Organics

Prosiect Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned (AGG) yw Banc Organics a sefydlwyd yn 2010. Hyd yn ddiweddar, mae wedi rhedeg fel rhan o Fferm Tŷ'r Eithin Cyf, elusen sy'n darparu 'lleoliadau preswyl hirdymor ar gyfer oedolion gydag anghenion arbennig, a lleoliadau dydd achlysurol i eraill sydd ag anghenion arbennig. Hefyd, lleoliadau byr a hir dymor ar gyfer pobl ifanc, gan gynnwys rhoi cyflwyniad iddynt i fywyd fferm organig a gofalu am anifeiliaid domestig ac ysgwyddo cyfrifoldebau, h.y. dysgu rheoli cymunedau planhigion ac anifeiliaid gwyllt a thraddodiadol.' Cafodd yr elusen ei dirwyn i ben ym mis Hydref 2019, a phrynwyd Fferm Tŷ'r Eithin gan Ymddiriedolaeth Ruskin Mill. Penderfynwyd sefydlu Banc Organics fel sefydliad ar wahân, yn annibynnol o Ruskin Mill, er mwyn caniatáu iddo ganolbwyntio ar ei amcanion craidd.

Trwy weithio gyda sefydliadau eraill fel sy'n briodol, mae Tyfu Fyny yn cefnogi Banc Organics er mwyn dod yn Gwmni Buddiannau Cymunedol (CIC) annibynnol a chynaliadwy o safbwynt ariannol.

Rhan allweddol o'r gefnogaeth a gynigiwyd gan Tyfu Fyny oedd cynnal astudiaeth dichonoldeb er mwyn adnabod y camau fyddai eu hangen i Banc Organics eu cymryd i fod yn gynaliadwy.

**Fel rhan o'r broses hon, gosodwyd yr amcanion canlynol fel rhan o'r cynllun busnes ar gyfer 2020 - 2024:**

- Ail-lansio Banc Organics fel busnes ar wahân, yn annibynnol o Fferm Tŷ'r Eithin
- Ehangu'r busnes yn sylweddol, gyda chynnydd o dros 300% o ran trosiant, o'i gymharu â 2018/19 a sicrhau fod y busnes yn gwneud elw eto, gan greu elw blynyddol o rhwng £4.5 - £7 mil y flwyddyn
- Canolbwyntio eto ar weithgareddau craidd, sef cynhyrchu ffrwythau a llysiau organig, uchel eu safon ar gyfer y gymuned leol
- Egluro ei safbwynt ar faterion allweddol, megis rôl da byw (os o gwbl) yn y system cynhyrchu
- Sicrhau fod y sefydliad yn fwy ymatebol i faterion a nodir gan aelodau e.e. defnyddio deunyddiau plastig mewn systemau cynhyrchu a phecynnu

Yn sylfaen i'r amcanion busnes hyn, mae gwaith yn digwydd yn y meysydd canlynol; datblygu'r farchnad, cael hyd i dir ychwanegol, cael mynediad at gyfleusterau storio newydd a chyfleusterau pecynnu, a chynyddu nifer y staff.

Mae Tyfu Fyny wedi cynnig cyfle hynod werthfawr o ran cefnogaeth ddiduedd ac annibynnol fydd yn helpu'r sefydliad symud at sefyllfa fwy cynaliadwy.

# ASTUDIAETH ACHOS - Hafod Walled Garden Group

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf anffurfiol Grŵp Gardd yr Hafod ym mis Hydref 2018 ac ar hyn o bryd mae ganddo 12 aelod sy'n rhannu ymrwymiad i ddulliau garddio sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd ac i gynyddu bioamrywiaeth leol.

Dengys mapiau cynnar y gwnaethpwyd gwaith garddio ar yr Ardd sydd â mur o'i chwmpas, ac sy'n sefyll ar lannau afon Ystwyth ar Ystâd yr Hafod ger Aberystwyth, am o leiaf 200 mlynedd. Mae'r waliau cerrig uchel yn cynnwys 2 erw o dir gwastad, gweddillion perthi bocs, dau dŷ gwydr mawr sy'n dyddio o gyfnod Victoria ac adeilad sylweddol a adeiladwyd o gerrig. Ni wnaethpwyd gwaith garddio yn y blynyddoedd diweddar ar lawer o'r safle nes i'r grŵp gymryd drosodd.

Erbyn hyn mae'r Ardd yn dechrau cael ei defnyddio'n llawn eto, fel prosiect tyfu cymunedol, ar ôl derbyn caniatâd gan berchennog Ystâd yr Hafod. Cynigiodd Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol gymorth i'r prosiect trwy'r Gwasanaeth Ymgynghorol ar Dir Cymunedol (CLAS) a chynllun Tyfu Fyny. Bu CLAS yn helpu drafftio trwydded addas trwy ymgynghori â'r perchennog tir, a chynhaliwyd profion i gadarnhau a oedd unrhyw fetelau trwm yn y pridd a bod lefelau dŵr ffo o fewn cyfyngiadau diogel. Bu Tyfu Fyny yn rhoi cyngor ar blanhigion bwyd (gan gynnwys coed afalau) na fyddai'n cael eu heffeithio gan yr elfennau hyn, gan argymell defnyddio gwelyau uchel oedd yn cynnwys pridd glân ar gyfer rhai llysiau.

Lluniwyd cynlluniau eraill ar gyfer gweithgareddau, a chynlluniau i greu incwm o werthu cynnyrch, yn amrywio o raglen hyfforddi a pharhau i gadw planhigfa goed ar gyfer rhywogaethau cynhenid.

Yn ddiweddar mae perchennog y tir wedi cyflawni gwaith cynnal a chadw ar y tai gwydr, ac wedi rhoi to newydd ar yr adeilad cerrig. Pan roedd yn amser adnewyddu'r drwydded ar gyfer y blanhigfa goed, croesawodd y cynlluniau i ddatblygu gweithgareddau garddio ymhellach gyda chyfraniad y gymuned leol. Gwnaethpwyd cynnydd da, ac o fewn y 3 mis cyntaf, roedd cytundeb prydlesu drafft yn barod i'r ddwy ochr ei adolygu i wneud unrhyw ddiwygiadau terfynol.

**"Roedd ein gwybodaeth ym maes garddwriaeth wedi gwneud cryn argraff [ar y perchennog] a'r dyhead i gynnwys eraill sy'n byw ar neu yn ymyl Ystâd yr Hafod. Dwi'n credu i hyn roi hyder iddo mewn perthynas â'r prosiect, ac mae eisoes wedi cynnig cyfrannu at y system dyfrhau fydd ei angen arnom."**

Grŵp Gardd yr Hafod

## ASTUDIAETH ACHOS - Parc y Dderwen

Yn y cychwyn cyntaf, y syniad tu ôl i gynllun **Parc y Dderwen** oedd sefydlu tyddyn yng Ngogledd Sir Benfro oedd yn seiliedig ar eplesu - model hybrid o Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned (AGG) i werthu blychau tymhorol oedd yn cynnwys amrediad o nwyddau llysiau eplesedig i 'aelodau' yn ogystal â siopau a marchnadoedd.

Diolch i gymorth y Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, treuliodd y perchnogion ddiwrnod yng nghwmni mentoriaid ym maes eplesu, Aoife a Jon o 'Gut Instinct' Abertawe i weld beth oedd goblygiadau rhedeg busnes eplesu ar raddfa fach. Diolch i'r profiad hwn, cafwyd hwb enfawr i fwrw ymlaen a chychwyn y busnes ym mis Ebrill 2018. Derbyniwyd cefnogaeth hefyd gan nifer o fentoriaid eraill:

Dynodwyd Ashley Wheeler, 'Trill Farm Garden', yn fentor ar gyfer yr ardd farchnad. Bu Ashley'n helpu meithrin eu hyder y byddai'r tir a'r ardd farchnad yn gallu tyfu'r holl gynhwysion fyddai eu hangen. Gyda'i gilydd, dyluniwyd cynllun cnydau manwl oedd yn cynnwys rhywogaethau llysiau gwahanol, amserlenni hau/trawsblannu/cynaeafu, faint fyddai ei angen i greu eu nwyddau unigol a chynllun cylchdroi cyffredinol ar gyfer yr ardd.

Bu mentor arall, Tom Clare yn rhannu ei wybodaeth ym maes dylunio amaeth-goedwigaeth, cynnal a chadw a dewis cyltifarau i'w plannu gyda'r coed. Y mentor olaf fu'n gweithio ar y prosiect oedd James Adamson - cyfraniad James oedd eu harwain trwy ddylunio'r twll twrio a systemau dal dŵr glaw, a bu'n rhannu ei brofiad o weithio ar brosiect tebyg oedd hefyd heb y fantais o fod ar y rhwydwaith cenedlaethol.





Yn sgil lansiad llwyddiannus yn Ebrill 2018, erbyn hyn mae Parc y Dderwen yn rhedeg busnes bach sy'n cynhyrchu bwydydd eplesedig. Ar ôl cychwyn trwy gynhyrchu 30 kilo, codwyd y cynhyrchiant i 130 kilo er mwyn ei wneud yn fwy gwerth chweil, a bellach rydym yn cynhyrchu 190 kilo'r tro ac yn cyflogi trydydd unigolyn ar ddyddiau cynhyrchu. Maent yn cynhyrchu rhyw 550 jar y mis, ac yn cyflenwi 18 siop ar draws Gorllewin Cymru. Diolch i gymorth eu mentoriaid, roeddynt yn gallu cadarnhau'r dyluniadau, y cynlluniau busnes a chynlluniau cnydau a chyflwyno'r cais cynllunio; derbyniwyd caniatâd cynllunio ym mis Mai 2019. Dros y pum mlynedd nesaf, gobaith Parc y Dderwen yw cyrraedd y sefyllfa lle maent yn darparu'r holl gynhwysion sydd eu hangen ar gyfer y cynnyrch eplesedig, ac maent am lansio'r cynllun Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned er mwyn i'r gymuned leol ddysgu mwy am eplesu, tyfu llysiau ac iechyd y perfedd.

**"Mae'r Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol wedi bod yn hynod gefnogol. Mae'r holl gefnogaeth wedi bod yn werthfawr tu hwnt o ran helpu dylunio'r fferm ar gyfer ein busnes, yn ogystal â pharatoi dogfennau ar gyfer ein cais cynllunio a'r cynllun busnes. Mae profiad a doethineb ein mentoriaid wedi ein galluogi i ddychmygu a chadarnhau'r llun sydd gennym mewn golwg."**

Parc y Dderwen








# Llwyddiannau a Rhwystrau

## Llwyddiannau

**Ymhlith prif lwyddiannau Tyfu Fyny roedd: gwaith partneriaeth, cyflenwi model oedd yn sicrhau fod y cynllun yn ymestyn ar draws y sector yng Nghymru, a'r cyfleoedd a gynigiwyd o ran dysgu gan gydweithwyr.**

## Gwaith Partneriaeth

Ar ben y gwaith a wnaethpwyd gan y tîm prosiect ar lawr gwlad, buon nhw hefyd yn chwarae rhan bwysig o safbwynt ymgysylltu strategol ar ran y sector. Yn ystod y prosiect, bu staff y prosiect yn gweithio gydag amrediad eang o bartneriaid[3] gan ddatblygu cysylltiadau gweithio credadwy a defnyddiol gyda nhw. Trwy gymryd rhan mewn amrediad o rwydweithiau tir cymunedol, bwyd a thyfu, megis rhwydweithiau Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned, Land Workers Alliance Cymru, y Rhwydwaith Bwyd Agored, a'r Ecological Land Cooperative, llwyddodd y prosiect i gysylltu'r sefydliadau hyn gyda ffynonellau cymorth a chyngor eraill tu allan i'r prosiect, oedd yn ychwanegu gwerth at y gefnogaeth a ddarparwyd. Yn ogystal, roedd hefyd yn gyfle i'r prosiect weithio'n agos gyda sefydliadau allweddol eraill o fewn y sector i ddatblygu llais ar ran y 'gymuned tyfu' ac i adnabod meysydd eraill lle gellir cydweithio yn y dyfodol.  Roedd yr adborth a dderbyniwyd gan bartneriaid oedd ynghlwm â'r gwerthusiad yn hynod gadarnhaol am waith Tyfu Fyny.  Roedd pob partner o'r farn fod gan y prosiect hunaniaeth amlwg ac roedd wedi mabwysiadu dull o weithio oedd yn wirioneddol gydweithredol o safbwynt cyflenwi.

Hefyd bu staff y prosiect yn ymgysylltu ag amrediad o grwpiau rhanddeiliaid strategol, llawer ohonynt a gychwynnwyd gan Lywodraeth Cymru e.e. Gweithgor Amaethyddiaeth mewn Amgylchedd wedi'i Reoli, a'r gweithgor Seilwaith Gwyrdd. Trwy gynrychiolaeth ar y grwpiau hyn, roedd y prosiect yn gallu defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth uniongyrchol o faes tyfu cymunedol i hysbysu a dylanwadu ar bolisïau a phenderfyniadau allweddol oedd yn effeithio ar y sector.

Tu hwnt i hyn, bu'r tîm hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau amrywiol megis Cymdeithasau Tai, timau Iechyd a Llesiant Cymunedau'n Gyntaf, Cynghorau Gwirfoddol a'u cysylltwyr cymunedol, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill o'r trydydd sector i gefnogi datblygu prosiectau tyfu cymunedol newydd neu i helpu prosiectau oedd eisoes yn bodoli. Mae'r holl bartneriaethau gwahanol hyn wedi helpu cryfhau ac ychwanegu gwerth at y prosiect a'r gefnogaeth a gynigiwyd i grwpiau, a chodi proffil tyfu cymunedol ar draws Cymru.

[3] *Gweler rhestr lawn yn Atodiad A*

## Y Model Cyflenwi

**Un o brif gryfderau'r prosiect yw bod Tyfu Fyny wedi adeiladu ar lwyddiant a momentwm prosiectau blaenorol a gyflenwyd trwy FfaGC ac felly roedd gan staff fynediad cyflym at rwydweithiau a sefydliadau oedd eisoes yn bodoli.**

Llwyddodd model cyflenwi Tyfu Fyny i gyrraedd rhannau helaeth o'r sector gan gynnig cefnogaeth bwrpasol wedi'i theilwra i grwpiau oedd wedi cyrraedd camau amrywiol ar y daith. Un o brif gryfderau'r prosiect yw bod Tyfu Fyny wedi adeiladu ar lwyddiant a momentwm prosiectau blaenorol a gyflenwyd trwy FfaGC ac felly roedd gan staff fynediad cyflym at rwydweithiau a sefydliadau oedd eisoes yn bodoli. Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol oedd yn cydlynu'r gwaith yn ganolog ar gyfer y rhaglen, ac roedd Gweithiwr Datblygu yn y Gogledd a'r De oedd yn golygu gallu gweithio ar draws Cymru gyfan. Hefyd, cyflogwyd Ymgynghorydd Busnes a Marchnata i weithio ar draws Cymru i roi cyngor neu gefnogaeth ym maes marchnata i'r sefydliadau oedd am fod yn fwy mentrus. Yn ogystal, roedd cyngor arbenigol ar gael trwy'r prosiect ar gyfer AGG a Ffermydd Gofal. Trwy ddarparu mynediad at gyngor a chefnogaeth generig ac arbenigol, llwyddodd y prosiect i groesgyfeirio grwpiau o fewn y prosiect, oedd yn arwain at wasanaeth mwy cydgysylltiedig. Cyfoethogwyd hyn eto trwy gysylltiadau cryf y prosiect gyda'r Gwasanaeth Ymgynghorol ar Dir Cymunedol[4] , ac atgyfeiriadau rheolaidd at CLAS. Roedd hyn yn golygu fod y prosiect yn gallu cynnig cefnogaeth 'cyfannol' i grwpiau bob cam o'r daith datblygu, ac oedd yn wynebu heriau gwahanol.

**"Roedd yr holl gyngor yn bwysig ac fe'i rhoddwyd ar yr adeg iawn gan CLAS megis rhoi cyngor ar gytundeb ar gyfer man tyfu."**

Ymatebwr i'r Arolwg

Roedd arbenigedd a gwybodaeth y staff yn un o ffactorau llwyddiant mawr Tyfu Fyny. Ar y cyd, roedd gan y tîm staff ddegawdau o brofiad ym maes tyfu cymunedol. Mae'r profiad yn amrywio o rannau penodol o'r sector i ddelio gyda phroblemau penodol. Hefyd mae'n amlwg fod y tîm wedi ymrwymo i gefnogi mudiad tyfu cymunedol a'u bod yn credu'n gryf yn ei gyfraniad cadarn tuag at gynaliadwyedd, cydnerthedd a llesiant cymunedau.

Fel rhan o'r model cyflenwi, recriwtiwyd rhwydwaith mentoriaid o'r sector hefyd i weithio gyda phrosiectau oedd yn gofyn am gymorth arbenigol. Roedd hyn yn golygu y gall grwpiau dderbyn diwrnod neu ddau o gymorth unigol dynodedig gan ymgynghorydd oedd â phrofiad a dealltwriaeth uniongyrchol o'r rhan honno o'r sector e.e. Ffermydd Gofal, AGG, gerddi cymunedol. Lle'r oedd yn bosib, dyrannwyd mentor lleol oedd yn cyfrannu gwerth ychwanegol o safbwynt gwybodaeth am bolisi lleol a rhwydweithiau lleol oedd eisoes yn bodoli. Arweiniodd hyn hefyd at leihau'r amser a'r gwariant o ran teithio at y grwpiau.

---

*[4]CLAS CYMRU yw Gwasanaeth Ymgynghorol ar Dir Cymunedol yng Nghymru, ac mae'n helpu prosiectau tyfu cymunedol adnabod a chael hyd i dir ar gyfer prosiectau tyfu. Mae'n cynnig cyngor arbenigol ar gytundebau prydlesu a chyngor cynllunio.*

Roedd cymorth y mentoriaid yn rhoi cyngor onest a diduedd i grwpiau i'w helpu ar amseroedd allweddol wrth iddynt ddatblygu. Roedd yn golygu y gall grwpiau wneud penderfyniadau strategol deallus ynghylch cyfeiriad y dyfodol a derbyn cymorth ymarferol os oedd ei angen. I gryfhau'r agwedd hon ar unrhyw brosiect yn y dyfodol, ac i sicrhau y defnyddir amser mentoriaid mor effeithiol â phosib, dylid adolygu'r system atgyfeirio ar gyfer prosiectau sy'n gofyn am gefnogaeth, a dylid defnyddio teclyn diagnostig cyn cynnig cefnogaeth. Hefyd dylid ystyried sut y gellir creu cysylltiadau gwell rhwng mentoriaid er mwyn cynnig cymorth i'w gilydd.

> **"Roedd derbyn gwasanaeth mentora gan fentor profiadol wedi rhoi'r hyder a'r arfau inni ddechrau cyflenwi gweithdai yn yr ardd oedd yn fwy cyfeillgar i deuluoedd."**
>
> Ymatebwr i'r Arolwg

Mae'r dull haenog hwn o gyflenwi'r prosiect h.y. generig, arbenigol a chymorth unigol wedi'i deilwra'n golygu fod y cymorth a roddwyd i'r grwpiau'n fwy tebygol o fod yn effeithiol a chael effaith hirdymor.

Er y dyluniwyd y rhaglen i roi cymorth i rannau gwahanol y sector, yn ymarferol, roedd darparu cefnogaeth i Ffermydd Gofal ac AGG yn fwy heriol. Roedd hyn yn rhannol oherwydd newidiadau staff, ond hefyd mae'n adlewyrchiad nad yw'r sector Ffermydd Gofal ac AGG wedi datblygu cymaint yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r DU, ac felly hwyrach bod angen math arall o gefnogaeth i ysgogi diddordeb a chodi ymwybyddiaeth o effaith a chwmpas yr agweddau hyn ar y sector tyfu. Yn ogystal, mae'r broses o sefydlu AGG yn un hir a chymhleth, ac mae angen i 'amgylchiadau arbennig' ddod ynghyd sy'n golygu eu bod yn symud ar raddfa neilltuol ac yn cymryd amser i'w datblygu. Fel y cyfryw, yn aml, ysbeidiol yw'r gefnogaeth, ac mae angen cynnwys y mannau masnachol a chymunedol sy'n gartref i'r AGG. Yn hyn o beth, llwyddodd Tyfu Fyny i ddarparu'r gefnogaeth neilltuol sydd ei hangen ar AGG.

**Roedd cymorth y mentoriaid yn rhoi cyngor onest a diduedd i grwpiau i'w helpu ar amseroedd allweddol wrth iddynt ddatblygu. Roedd yn golygu y gall grwpiau wneud penderfyniadau strategol deallus ynghylch cyfeiriad y dyfodol a derbyn cymorth ymarferol os oedd ei angen.**

## Cyfleoedd dysgu

Pan ofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg ynghylch anghenion cefnogaeth yn y dyfodol, mae'r ffaith taw un o'r themâu cyffredin oedd angen parhaus am hyfforddiant a rhwydweithio'n dangos bod galw ar gyfer cyfleoedd i ddysgu gyda'ch gilydd. Nodwyd hyn hefyd yn anecdotaidd gan Weithwyr Datblygu a sylwodd bod grwpiau'n gwerthfawrogi'n fawr y cyfleoedd i ddysgu gan ei gilydd a rhwydweithio. Mae gwerth yr hyfforddiant yn cael ei ategu eto trwy ddadansoddi'r ffurflenni adborth yn sgil hyfforddiant, a gasglwyd trwy gydol y prosiect sy'n dangos fod yr hyfforddiant a'r gweithdai a gyflwynwyd fel rhan o'r prosiect yn destun gwerth uchel gan y sawl oedd yn bresennol gyda 98% o bobl yn asesu'r hyfforddiant fel 'da

iawn'. Roedd buddiolwyr y prosiect wedi gwerthfawrogi'r digwyddiadau a gyflenwyd trwy'r rhaglen o ran perthnasedd y pynciau dan sylw a fformat yr hyfforddiant, oedd yn aml yn cyfuno hyfforddiant gyda chyfleoedd i ddysgu gan gydweithwyr a rhwydweithio rhwng sefydliadau. Dylai unrhyw brosiect yn y dyfodol geisio efelychu'r dull hwn o weithio o safbwynt dysgu, ac ystyried sut y gellir cynnal rhwydweithiau ar lefel rithwir er mwyn annog y sector i fod yn fwy hunangynhaliol.

## Rhwystrau

**Y Prif Rwystrau a wynebodd Tyfu Fyny oedd newidiadau mewn staff, daearyddiaeth (h.y. yr her o gynnig gwasanaeth ar draws Cymru gyfan gydag adnoddau staff cyfyngedig,) a chapasiti.**

## Newidiadau Staff

Yn gynnar yn y prosiect wynebwyd heriau sylweddol mewn perthynas â staff; a chafodd hyn effaith uniongyrchol ar rai agweddau ar gyflenwi'r prosiect. Er i FfaGC lwyddo i reoli colli ac wedyn penodi aelodau staff, gan gynnwys Rheolwr Cymru, roedd yn golygu nad oedd y prosiect yn gallu gweithredu i'w gapasiti llawn am gyfnod. Cafodd hyn effaith benodol ar linyn cyflenwi Ffermydd Gofal, oherwydd Rheolwr Cymru oedd hefyd yn gyfrifol am ddatblygu'r llinyn hwn.

Yn hwyrach yn y prosiect, arweiniodd ansicrwydd mewn perthynas â'r potensial i ymestyn y prosiect at rai heriau o safbwynt staffio, oedd yn golygu y bu'n rhaid lleihau oriau'r staff ar adeg pan roedd galw am gefnogaeth trwy'r prosiect yn cynyddu. Er gwaetha'r heriau hyn, mae ymrwymiad ac ymroddiad y tîm staff yn dystiolaeth iddyn nhw barhau i gyflenwi gwasanaeth uchel ei safon, a rhagori ar dargedau'r prosiect.



## Daearyddiaeth

Er i Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol gynnig gwasanaeth cydlynu canolog effeithiol, roedd nifer o heriau mewn perthynas â chyflenwi rhaglen ar draws Cymru gyfan, gyda rhai ohonynt yn cael eu dwysáu oherwydd cyfyngiadau cyllidol y prosiect. Er enghraifft, roedd y galw yn y De yn golygu y byddai'r prosiect wedi elwa o allu dyrannu mwy o oriau Gweithiwr Datblygu i ran honno'r wlad. Gwaethygwyd yr heriau hyn gan heriau ymarferol o gael tîm ar wasgar e.e. sicrhau fod y tîm yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn adnabod eu hunain fel rhan o dîm yn hytrach na gweithwyr unigol wrth eu hunain. Hefyd roedd y pellter roedd Gweithwyr Datblygu'n gorfod teithio yn aml yn golygu nad oedd yn bosib cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda grwpiau o fewn yr oriau a ddyrannwyd i'r prosiect, oedd yn arwain at gynnig mwy o gefnogaeth o bell dros y ffôn. Hefyd roedd pellter teithio'n rhwystr o safbwynt dod â grwpiau at ei gilydd i rwydweithio. Yn aml, ystyrir fod Rhwydweithio, er ei fod yn hynod werthfawr i'r grwpiau, yn 'foethus beth' oherwydd cyfyngiadau amser a blaenoriaethau eraill, felly mae'r ffaith i'r prosiect lwyddo i gynnal digwyddiadau rhwydweithio oedd yn dod â phobl ynghyd o Gymru gyfan, yn dystiolaeth o'r gwerth a ddangosodd sefydliadau tuag at yr agwedd hon ar y prosiect.

Hefyd daethpwyd ar draws heriau yn ymwneud â gweithio ar draws siroedd gwahanol. Er bod gan Gymru bolisi tyfu cymunedol cenedlaethol, ar lefel leol, mae ymrwymiad Awdurdodau Lleol tuag at dyfu cymunedol yn amrywio, gyda pholisïau unigol mewn perthynas â chynllunio ac ati. Fel y cyfryw bu'r prosiect yn gweithio o fewn fframwaith anghyson oedd yn golygu anawsterau cysylltiedig. Er bod y problemau hyn wedi arwain at anawsterau o safbwynt cyflenwi, roedd herio anghysondebau a thynnu sylw at arfer orau ar draws y sir wedi chwarae rhan bwysig o safbwynt gwaith dylanwadu strategol a gyflawnwyd gan y prosiect.

## Capasiti

Er gwaetha'r heriau a wynebodd y prosiect mewn perthynas â staffio a daearyddiaeth, llwyddodd y prosiect i fodloni, neu yn rhan fwyaf yr achosion, rhagori ar ei holl dargedau yn rhwydd. Er hynny, mae achos cryf dros ddadlau y gellir cyflawni mwy a chael mwy o effaith pe byddai mwy o gapasiti'n bodoli o fewn y tîm prosiect. Yn bendant dyna'r achos yn y De, fel y nodwyd uchod, ond hefyd efallai o safbwynt Cymorth Busnes a Marchnata. Gan ystyried yr angen cynyddol i brosiectau symud i ffwrdd o ddibynnu ar gyllid grant a bod yn fwy arloesol wrth geisio creu incwm. Yn ogystal, fel y nodwyd yn barod, mae anghenion cymorth penodol AGG a Ffermydd Gofal, a natur lai sefydledig y rhannau hyn o'r sector yn golygu bod angen ymyriadau dwys a mwy hirdymor. Er mwyn gwireddu'r rhannau hyn o'r sector yn llawn yng Nghymru, hwyrach y bydd angen mwy o gapasiti i gefnogi eu datblygiad yn y dyfodol.





Gellir dadlau hefyd bod angen mwy o gapasiti ar Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol i'w galluogi i gynnig arweiniad strategol a datblygu ymhellach eu gallu i ddylanwadu ar bolisi yng Nghymru. Er bod hyn yn rhan allweddol o'r prosiect, mae angen mwy o eglurhad o ran cyfraniad y sector at bolisi allweddol Llywodraeth Cymru a hefyd at lesiant cymunedau. Mae'r cyfoeth o brofiad ar lawr gwlad sydd gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol a'u gwybodaeth am bolisi a strategaethau Llywodraeth Cymru'n golygu eu bod mewn lle delfrydol i ysgwyddo rôl strategol fwy estynedig.

Hefyd yn y cyswllt hwn, yn y dyfodol mae angen cael mwy o ffocws ar a buddsoddiad mewn gweithgareddau sy'n hwyluso gwaith partneriaeth. Er y bu'r prosiect yn llwyddiannus mewn gwaith partneriaeth ar lefel leol a chenedlaethol, sy'n denu enw da a pharch partneriaid amrywiol, byddai mwy o bwyslais a chapasiti i ymgysylltu â gwaith partneriaeth yn cynyddu hygrededd y cynllun ar lefel genedlaethol yn ogystal ag agor cyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithio.

# Sut gellir gwneud pethau'n wahanol yn y dyfodol?

Un o brif fuddion prosiect Tyfu Fyny yw iddo gyfrannu ymhellach at ddysgu sut i roi'r gefnogaeth orau i'r sector yng Nghymru er mwyn iddo ffynnu. Cynigir y pwyntiau canlynol fel awgrymiadau ar ffyrdd i gyfoethogi'r prosiect:

- Er bod newid yn yr hinsawdd yn thema 'annibynnol' o dan y prosiect hwn, yn y dyfodol dylai fod yn thema drawsbynciol a dylid ei ystyried ochr yn ochr â holl agweddau eraill ar gynaliadwyedd.
- Hwyrach bod angen mwy o hyblygrwydd o ran dyrannu oriau Gweithwyr Datblygu. Dylid seilio hyn ar alw, ond wrth wneud hynny, ni ddylid anghofio'r angen i ysgogi diddordeb mewn 'mannau oer'.
- Mae angen deall yn well y gefnogaeth sydd ei hangen ar rannau neilltuol y sector e.e. AGG a Ffermydd Gofal, a sut y gellir cefnogi'r rhain yn y ffordd fwyaf effeithiol. Hwyrach y bydd angen ymateb mwy strategol a chydgysylltiedig.
- Os bydd adnoddau a chapasiti'n caniatáu, bydd asesiad mwy manwl o anghenion grwpiau cyn pennu mentor yn sicrhau y gellir manteisio i'r eithaf ar amser y mentor.





# Anghenion Cymorth sector Tyfu Cymunedol Cymru yn y dyfodol

Mae anghenion cymorth y sector yn y dyfodol yn dibynnu'n helaeth ar amgylchiadau unigol y grŵp dan sylw, ond hefyd ar yr amgylchedd allanol sydd ohoni. Fel y nodir uchod, roedd grwpiau wedi mynegi mwy o sylwadau ar y math o gefnogaeth fyddai'n fwyaf buddiol iddynt h.y. cefnogaeth unigol a chyfleoedd rhwydweithio yn hytrach nag anghenion penodol. **Awgryma'r drafodaeth gyda phartneriaid taw'r tair prif agwedd fydd yn effeithio ar dyfu cymunedol yn y dyfodol fydd: effaith Covid-19, effaith Brexit a phwysigrwydd cynyddol yr agenda iechyd a llesiant.**

## Effaith Covid-19

Mae pandemig Covid-19 wedi gorfodi pobl i newid eu hymddygiad o safbwynt cael mynediad at fwyd, sydd wedi ysgogi galw ac wedi annog pobl i brynu bwyd a gynhyrchir yn lleol. Bu cynnydd sylweddol yn y galw am gynlluniau blychau llysiau cymunedol ac er gwaetha'r ymyrraeth i'r 'arferol', mae cynhyrchwyr bwyd lleol a chymunedol wedi llwyddo i gyflenwi bwyd uchel ei ansawdd mewn ffordd ddibynadwy. Mae ategu hyn a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cadwyni cyflenwi lleol a diogelwch bwyd yn gyfle enfawr i agwedd bwytadwy'r sector, ac mae'n hanfodol manteisio i'r eithaf ar y duedd hon o 'brynu'n lleol'.

Gall hefyd olygu cyfle i ystyried cynhyrchu bwyd ar lefel ehangach ac i gydweithio gyda ffermwyr da byw. Ar hyn o bryd mae'r sector yn canolbwyntio'n bennaf ar arddwriaeth, ond gall fod manteision i weithio gyda chynhyrchwyr da byw er mwyn ehangu'r cynnig ac i helpu'r cynhyrchwyr hyn ymateb i effaith Covid-19 a Brexit.

## Effaith Brexit

Er nad ydym eto'n deall effaith lawn Brexit, mae'n bur debyg y bydd effaith ar y farchnad allforion ac felly hwyrach y bydd angen i gynhyrchwyr ddatblygu marchnadoedd lleol. Yn ogystal, hwyrach y bydd bwydydd sy'n cael eu mewnforio'n ddrutach ac ni fydd mor hygyrch efallai, sy'n golygu fod cymunedau lleol yn fwy tebygol o brynu bwyd a dyfir yn lleol. Ar lefel ymarferol arall, os bydd ffermwyr o'r farn fod cynhyrchu bwyd yn llai hyfyw, gall olygu y bydd mwy o dir ar gael at ddefnydd y gymuned trwy gytundebau prydlesu.

Mae'r holl sefyllfaoedd hyn yn golygu cyfleoedd sylweddol ar gyfer y sector, ac fel y cyfryw mae angen i'r sector fod mewn sefyllfa i fanteisio i'r eithaf ar unrhyw gyfleoedd felly wrth iddynt godi. Bydd hyn yn golygu gwaith parhaus ar lefel strategol gydag unigolion sy'n gyfrifol am bolisïau a phartneriaid, ac ar lawr gwlad cefnogaeth i sicrhau fod y sector yn gallu ymateb yn gyflym i amgylchiadau lleol.

## Iechyd a Llesiant

Mae ’na dystiolaeth gadarn fod gan y sector rôl allweddol i’w chwarae o ran cyfrannu at yr agenda iechyd a llesiant. Mae Ffermydd Gofal, yn benodol yn gwneud cyfraniad neilltuol i’r agenda yma, ond mae gwirfoddoli ac ymgysylltu â’r gymuned ar draws y sector hefyd yn cynnig cyfleoedd hynod werthfawr i bobl wella eu hiechyd a chynyddu llesiant. Yn benodol, trwy ddarparu cyfle i bobl gael cyfle i dreulio amser yn yr awyr agored gyda natur, eu cynnwys mewn cynlluniau tyfu neu fagu da byw, gan roi teimlad o ddiben a chyrhaeddiad iddynt, mae’r sector yn gallu gwneud cyfraniad cadarnhaol at gynlluniau iechyd a llesiant megis Presgripsiynau Cymdeithasol. Os ydym am fanteisio i’r eithaf ar y cyfleoedd hyn, mae angen i’r sector ddangos gwell dystiolaeth o’r cyfraniad mae’n ei wneud er mwyn gwella ei sefyllfa yn hyn o beth.

Er mwyn i’r sector a grwpiau allu ymateb i’r cyfleoedd hyn, barn partneriaid oedd bod angen cynnig cefnogaeth benodol i grwpiau yn y meysydd canlynol:

- **Mesur gwerth cymdeithasol** - gall hyn fod yn bwysig yn enwedig o safbwynt gallu dangos effaith ar iechyd a llesiant. Fel arfer nid oes gan fudiadau bach brofiad o ddangos gwerth cymdeithasol, ac felly byddai hyfforddiant ac enghreifftiau o sut gall mudiadau amrywiol eu maint cyflawni hyn, yn ddefnyddiol. Byddem yn argymell dysgu gan brosiectau gwerth cymdeithasol sydd eisoes yn bodoli megis Mantell Gwynedd[5].

- **Caffael tir** - hon yw’r brif broblem i grwpiau o hyd. Mae’n hanfodol cael cyngor a chymorth arbenigol i helpu grwpiau ddelio gydag anawsterau cael hyd i ac wedyn prydlesu/prynu tir. Mae prosiect CLAS yn ffordd wych i grwpiau dderbyn y gefnogaeth yma. Ar lefel fwy strategol, mae angen cyflawni gwaith parhaus gydag Awdurdodau Lleol a thirfeddianwyr lleol i adnabod safleoedd y gellir eu rhyddhau ar gyfer cynlluniau tyfu cymunedol ac i helpu grwpiau ddelio gyda rheoliadau cynllunio lleol.

- **Dod yn fwy cynaliadwy o safbwynt ariannol** - mae angen i grwpiau fod yn ymwybodol o gynaliadwyedd ariannol o’r cychwyn cyntaf. Gall fod yn hanfodol ar gyfer rhai rhannau o’r sector e.e. AGG a Ffermydd Gofal, ond mae’n berthnasol i bob rhan o’r sector. Dylai agweddau datblygu busnes / cymorth o safbwynt mentrau fod yn rhan o unrhyw gynnig i’r sector. Er hynny, mae’n rhaid ystyried y ffaith fod y sector yn cynnwys grwpiau sydd wedi cyrraedd camau datblygu amrywiol, ac sydd hefyd ag uchelgais gwahanol. Bydd rhai grwpiau yn dymuno rhedeg ar sail wirfoddol a thyfu er mwyn bodloni eu dyheadau a phleser eu hunain; ond i’r grwpiau mwy uchelgeisiol ac sydd am weithio ar sail fwy masnachol, dylai cefnogaeth briodol fod ar gael.

---

[5] *https://mantellgwynedd.com/eng/social-value-cymru.html*

# Casgliad

Mae'n amlwg fod Tyfu Fyny wedi darparu ffynhonnell cymorth hynod werthfawr i'r sector Tyfu Cymunedol yng Nghymru ac arweiniodd hyn at fuddion amlwg i lawer o'r sefydliadau sydd wedi derbyn cefnogaeth trwy'r cynllun. Ei gryfderau oedd ei allu i gyflenwi rhaglen oedd yn ymateb i anghenion y sector trwy ddarparu cyfryngau cymorth amrywiol mewn ffordd hygyrch a hyblyg. Hefyd roedd darparu gweithwyr pwrpasol gyda phrofiad a dealltwriaeth uniongyrchol o'r sector er mwyn cydlynu cefnogaeth a gwasanaeth brocera, ochr yn ochr â chyngor arbenigol gan ymgynghorwyr, wedi bod yn amhrisiadwy.

Mae'r prosiect wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cynrychioli buddiannau'r sector trwy ei waith partneriaeth a thrwy gyfranogiad gyda grwpiau rhanddeiliaid strategol allweddol. O ganlyniad maent wedi gallu cynrychioli gwaith aelodau mewn ffordd effeithiol, ac ategu cyfraniad gwerthfawr y sector tyfu cymunedol mewn perthynas â chymunedau cadarn, iach a chydlynus.

Er mwyn i'r sector manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir gan fyd yn sgil Brexit / Covid19 mae'n hanfodol y cedwir mynediad at gymorth ac arweiniad sy'n benodol i'r sector a pharhau i hwyluso cyfleoedd i grwpiau tyfu cymunedol rwydweithio a rhannu eu gwybodaeth. Ac ar yr un pryd, mae'n rhaid cyflawni gwaith dylanwadu parhaol i sicrhau fod unigolion sy'n gwneud penderfyniadau'n ymwybodol o werth a chyfraniad y sector tyfu cymunedol.



## Argymhellion

1. Dylai unrhyw raglen yn y dyfodol ystyried prif bwyntiau dysgu cynllun Tyfu Fyny.
2. Dylid parhau â phrif elfennau'r model cyflenwi; cymorth unigol, wedi'i deilwra, arf diagnostig cychwynnol, defnyddio mentoriaid ac ymgynghorwyr arbenigol. Dylid parhau i sicrhau fod cefnogaeth ar gael i grwpiau ar draws y sbectrwm datblygu gyda chymorth busnes mwy dwys i'r sawl sydd am ddod yn gynaliadwy o safbwynt ariannol.
3. Er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau o safbwynt cael mynediad at dir, dylai rhaglen CLAS barhau i weithio'n llyfn gydag unrhyw gymorth arall a gynigir i'r sector.
4. Mae'r sector yn gwerthfawrogi rhwydweithio a chyd-ddysgu, a dylai aros yn ffactor arwyddol o ran unrhyw gymorth a gynigir yn y dyfodol, gan ystyried sut y gellir cefnogi hyn o safbwynt ariannol i alluogi mwy o grwpiau i gymryd rhan ynddo.
5. Mae'n debyg y bydd gallu dangos gwerth cymdeithasol yn fwyfwy pwysig i grwpiau sydd am gael mynediad at grantiau a chyllid. Mae angen cymorth penodol yn y maes yma i feithrin capasiti grwpiau a'u galluogi i ddeall yn well sut i ddangos eu gwerth cymdeithasol.
6. Dylai Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol barhau i bwysleisio, ac os yn bosib cyfoethogi hyn, dylanwadu strategol a gwaith partneriaeth. Bydd hyn yn bwysig yn enwedig wrth wireddu'r potensial sy'n deillio o'r agenda Iechyd a Llesiant, ac yn benodol cyfleoedd a geir trwy bresgripsiynau cymdeithasol.
7. Mae angen i unrhyw raglen yn y dyfodol adlewyrchu anghenion amrywiol y sector, a bod angen datblygu strategol ar rai rhannau o'r sector e.e. Ffermydd Gofal ac AGG.
8. Mae angen gwaith ymchwil er mwyn deall cyfraniad cadarnhaol y sector yn ystod y pandemig Covid-19. Dylid defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o hyn, a'u defnyddio i barhau i dyfu'r farchnad ar gyfer y sector yn y dyfodol.





# Atodiad A

## Partneriaethau a grwpiau rhanddeiliaid a gefnogwyd gan staff Tyfu Fyny

- Grŵp Cadwyn Gyflenwi Garddwriaethol LANTRA
- Grŵp Llywio Rhanddeiliaid Garddwriaeth Cymru
- Tasglu LlC – Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio
- Gweithlu LlC Polisi Amaethyddiaeth mewn Amgylchedd wedi'i Reoli
- Gweithgor Seilwaith Gwyrdd LlC
- ARWAIN - Grŵp llywio Nwyddau'r Tir
- Rhwydweithiau Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned
- The Land Workers Alliance
- Y Rhwydwaith Bwyd Agored
- Ecological Land Cooperative

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

impact consultancy & research
working with others to achieve positive change

Cynhaliwyd y gwerthusiad gan Impact Consultancy & Research